# LC1253

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2006

Mae’r rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) 1991 o ran Cymru; heblaw bod unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan y Rheoliadau hynny i’w drin fel pe bai wedi ei gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn. Mae hyn yn dilyn diwygiadau i’r cynllun hysbysu maethu preifat a wnaed gan adran 44 o Ddeddf Plant 2004.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Gallai defnyddio ymadroddion fel "where a local authority have" gael ei ystyried yn chwithig. Fodd bynnag, mae defnyddio rhagenwau lluosog a ffurfiau lluosog y ferf mewn perthynas ag awdurdod lleol unigol yn dilyn patrwm a ddefnyddiwyd yn Neddf Plant 1998 (fel y’i diwygiwyd). Mae’r testun Cymraeg, ar y llaw arall, yn defnyddio rhagenwau unigol a ffurfiau unigol y ferf fel "rhaid iddo drefnu", sy’n fwy confensiynol.

Nid yw defnyddio’r berfenw hollt "to privately foster a child", fodd bynnag, yn dilyn cynsail yn y

Ddeddf, lle defnyddir yr ymadrodd "to foster a child privately" sydd ychydig yn fwy cain.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 21 Mawrth 2006